
Cael Gfael ar Newyddion yn y DU: 2020

Trosolwg o ganfyddiadau'r ymchwil

1. Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymchwil 2019/20 Ofcom ynghylch cael gafael ar newyddion ar draws teledu, radio, print, cyfryngau cymdeithasol, podlediadau, ffynonellau eraill ar y rhyngwrwyd, a chylchgronau. Caiff ei gyhoeddi fel rhan o'n hystod o adroddiadau ymchwil i'r farchnad sy'n edrych yn fanwl ar ddefnyddio cynnwys, ac agweddau tuag at y cynnwys hwnnw ar draws wahanol lwyfannau.

Nod yr adroddiad pecyn sleidiau hwn yw datblygu dealltwriaeth o arferion cael gafael ar newyddion ledled y DU ac ym mhob gwlad yn y DU. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau a llwyfannau a ddefnyddir, pa mor bwysig yw gwahanol sefydliadau newyddion, agweddau at ffynonellau newyddion unigol, a defnyddio newyddion rhyngwladol a lleol.

Mae'r pecyn sleidiau hefyd yn rhoi dealltwriaeth o sut mae oedolion yn cael gafael ar faterion cyfoes a sut mae plant 12-15 oed yn cael gafael ar newyddion.

Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg yr oedolion eleni ei gynnal rhwng 9 Tachwedd ac 8 Rhagfyr 2019, a rhwng 24 Chwefror a 30 Mawrth 2020. Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg y plant eleni ei gynnal rhwng 15 Tachwedd a 10 Rhagfyr 2019, a rhwng 1 a 20 Ebrill 2020. Nid yw'r adroddiad hwn yn edrych ar gyfnod cyfyngiadau symud y coronafeirws oherwydd mae ymchwil arall, fel [arolwg newyddion Covid-19](#) Ofcom, yn mynd i'r afael â hyn.

Y brif ffynhonnell yw Arolwg ar Gael Gafael ar Newyddion Ofcom. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth gan amryw o gylchrediadau'r diwydiant, gan gynnwys:

- BARB ar gyfer gwyllo'r teledu
- ABC ar gyfer cylchrediad papurau newydd

Mae rhagor o wybodaeth am y cylchrediadau diwydiant a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr atodiad.

Beth rydym wedi'i ganfod – yn gryno

Teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf i gael newyddion o hyd (75%), wedyn y rhyngwrwyd (65%). Fodd bynnag, o gymharu â 2019, mae llai o oedolion yn honni eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion (45%) ac mae wedi dychwelyd i'r un lefel â 2018. Mae defnydd teledu ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 65+ (92%), a'r rhyngwrwyd yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf i gael gafael ar newyddion ymysg pobl 18-24 oed (79%) a phobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig (74%).

Er mai'r BBC yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf, mae gostyngiad wedi bod yn nifer yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio sianeli teledu'r BBC i gael newyddion. BBC One yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf ymysg yr holl oedolion o hyd (56%), ac fe'i dilynir gan ITV (41%) a Facebook (34%).

Mae tystiolaeth bod oedolion yn y DU sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion (45%) yn ymgysylltu llai â'r cynnwys. Mae'r rheini sy'n defnyddio Facebook, Instagram a Twitter yn llai tebygol o rannu/aildrydar erthyglau newyddion poblogaidd, ac mae cyfrannau llai o bobl yn clicio ar erthyglau/fideos newyddion (Facebook/Instagram) neu'n rhoi sylwadau (Twitter/Instagram) o'i gymharu â 2019.

Pan mae defnyddwyr yn eu sgorio ar fesurau fel ansawdd, cywirdeb, dibynadwyedd a didueddrwydd, mae cylchgronau'n dal i berfformio'n well na llwyfannau newyddion eraill, gyda theledu yn ail. Mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn meddwl ei fod yn llai dibynadwy, diduedd a chywir yn 2020 nag oedd yn 2019. Mae'r gwrthwyneb yn wir am wefannau ac apiau eraill, sy'n cael eu sgorio'n uwch gan ddefnyddwyr yn 2020 na 2019.

Teledu yw'r llwyfan mwyaf cyffredin ar gyfer cael gafael ar newyddion lleol a newyddion o fewn y gwledydd. BBC One yw'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf yng Nghymru a Lloegr o hyd. Mae BBC One ac STV yn gydradd gyntaf yn yr Alban, ac mae UTV a BBC One yn gydradd gyntaf yng Ngogledd Iwerddon.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae ychydig dan chwech o bob deg (57%) o blant 12-15 oed yn ymddiddori mewn newyddion. Mae'r plant hyn yn ymgysylltu â'r newyddion yn bennaf i ddeall beth sy'n digwydd o'u cwmpas, i ddysgu ac i feddwl am bethau newydd. Bod yn 'rhy ddiflas' yw'r prif reswm dros ddiffyg diddordeb mewn newyddion o hyd, gyda diffyg perthnasedd yn ail.

Siarad â'r teulu (68%) a gwyllo'r teledu (67%) yw'r ffyrdd mwyaf cyffredin o gael gwybod am y newyddion ymysg plant 12-15 oed, gyda chyfryngau cymdeithasol yn ail (55%) wedyn siarad â ffrindiau (49%). BBC One/BBC Two yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf (41%) a'r un bwysicaf (17%), er mae'n werth nodi mai gwefannau cyfryngau cymdeithasol yw chwech o'r ddeg ffynhonnell a ddefnyddir amlaf gan blant 12-15 oed.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, Teulu a Radio, wedyn Teledu yw'r ffynonellau newyddion mwyaf gwir ym marn plant 12-15 oed. Cyfryngau cymdeithasol a ffrindiau yw'r ffynonellau lleiaf gwir o hyd.